# GWEITHGARWCH RHYNGWLADOL GWEINIDOGION

## EBRILL 2025

| YMWELIADAU Â CHYMRU | |
|---|---|
| 02 Ebr | **Ymweliad gan Lysgennad yr UE i'r DU a Phenaethiaid Llysgenadaethau eraill**<br>Cyfarfu'r Prif Weinidog â Llysgennad yr UE i drafod y berthynas economaidd rhwng Cymru a'r UE a chryfhau cysylltiadau ehangach. Gyda Llysgennad yr UE yr oedd Llysgenhadon Latfia, Gwlad Belg, Bwlgaria a Lwcsembwrg. |
| **YMWELIADAU Â GWLEDYDD ERAILL** | |
| 02 Ebr | **Ymweliad y Dirprwy Brif Weinidog â Latfia.**<br>Teithiodd y Dirprwy Brif Weinidog i Riga i ymweld â chwmni rhedeg Cynllun Dychwelyd Ernes Latfia ac i gwrdd â swyddogion llywodraeth Latfia. |
| 06 Ebr | **Ymweliad y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflenwi â Malta**<br>Ymwelodd y Cwnsler Cyffredinol â Malta i siarad yng Nghynhadledd Cyfraith y Gymanwlad a dysgu oddi wrth arbenigwyr yn y maes. |
| 08 Ebr | **Ymweliad y Prif Weinidog â Chopenhagen**<br>Teithiodd y Prif Weinidog i Gopenhagen i siarad yng nghynhadledd Wind Europe a chyfarfod â phenaethiaid cwmnïau i hyrwyddo’r sector ynni adnewyddadwy, ynni gwyrdd a thwf gwyrdd yng Nghymru. |
| 23 Ebr | **Ymweliad Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio â Japan**<br>Teithiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio i Japan ar gyfer rhaglen 5 diwrnod o ddigwyddiadau, fel rhan o Flwyddyn Cymru a Japan. Y nod oedd ehangu a gwella cysylltiadau economaidd, diwylliannol a thwristiaeth. Daeth yr ymweliad i ben gyda Diwrnod Cymru yn Expo Osaka 2025, lle cynhaliodd Ysgrifennydd y Cabinet dderbyniad ym Mhafiliwn y DU. Datganiad Ysgrifenedig: Ymweliad Gweinidog â Japan |